CYD-BWYLLGOR MOESEG ANNIBYNNOL
COFNODION

Dydd Gwener, 10 Mawrth 2023 – Ystafell Gyfarfod Dyffryn, Pencadlys yr Heddlu, Heol y Bont-faen, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU

1a. Yn bresennol

Dr John William Devine (Cadeirydd)
Mr Mike Lewis (Is-gadeirydd)
Dr Jacqueline Gantley
Ms Claire Corrigan

Prif Uwch-arolygydd Danny Richards
Ms Jayne Woodward
Ms Nia Brennan
Mr Martyn Jones
Prif Uwch-arolygydd Mark Lenihan
Y Rhingyll Jennifer Owen
Ms Nicole Mountjoy
Ms Amy Davies (Ysgrifenyddiaeth)

Cyflwynwyr Gwadd:
Ditectif Uwch-arolygydd Paul Peters

Ymddiheuriadau:
Ms Carol Woodward
Mrs Bronwen Williams
Mr Joga Singh
Ditectif Arolygydd Jack Wiskerd
Ditectif Rhingyll Alex Coutts
Arolygydd Matthew Hicks
Mr Lee Jones
Rhingyll Sian O'Shea

2. Cyflwyniadau a Chroeso – Y Cadeirydd

Croesawodd y Cadeirydd y Pwyllgor i'r cyfarfod a chyflwyno'r siaradwr gwadd, y Ditectif Uwch-arolygydd Paul Peters o'r Ganolfan Seibergadernid yng Nghymru (CRC).

3. Cofnodion a Chamau Gweithredu 31/03/2022 – Y Cadeirydd

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Rhagfyr 2022 gan y Pwyllgor.

Rhif y Cam Gweithredu	Camau Gweithredu Blaenorol	Perchennog	Statws/ Diweddariad
10.06.2021.1	John William Devine, PGC Travis a Lee Jones i ystyried a yw gwaith ychwanegol sy'n cael ei wneud gan aelodau'r Pwyllgor er budd y Pwyllgor yn cael ei gydnabod a'i ariannu a sut mae'n cael ei gydnabod a'i ariannu.	John William Devine	**Diweddariad 19.09.2021:** John William Devine i gyfarfod â PGC Travis a Lee Jones i drafod cydnabyddiaeth i aelodau sy'n gwneud gwaith ychwanegol (ar ben eu gwaith pwyllgor arferol) er budd y Pwyllgor. **Diweddariad 17.12.2021:** Sgyrsiau i'w cynnal ynghylch cydnabod gwaith a gwblheir gan aelodau'r Pwyllgor. **Diweddariad 31.03.2022:**

Rhif y Cam Gweithredu	Camau Gweithredu Blaenorol	Perchennog	Statws/ Diweddariad
			Cyfarfu'r Cadeirydd â PGC Travis and Lee Jones i drafod mater cydnabyddiaeth i aelodau o'r pwyllgor sy'n gwneud gwaith ymchwil ar ben eu rôl ar y pwyllgor. Caiff yr eitem hon ei thrafod yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor. **Diweddariad 29.06.2022:** Trafododd y Cadeirydd y cam hwn â PGC Travis a Lee Jones yn flaenorol. Lluniodd eu trafodaethau ddau linyn: cydnabyddiaeth a sefydlu panel cynghori. Yn absenoldeb Lee Jones a PGC Travis, bydd y panel cynghori'n cael ei drafod yn y cyfarfod nesaf. Trafodwyd cydnabyddiaeth dan unrhyw fater arall. **Diweddariad 08.12.2022:** Trafododd y Pwyllgor y posibilrwydd o sefydlu grŵp cynghori arbenigol o dan Unrhyw Fater Arall. **Diweddariad 10.03.2023:** Trafododd y Pwyllgor y broses o ffurfio grŵp cynghori arbenigol er mwyn helpu'r Pwyllgor gyda materion y gall fod arbenigedd ategol penodol yn ddymunol. Cymeradwywyd y cynnig hwn yn gyffredinol. Bydd y Cadeirydd yn cwrdd â Lee Jones yn y dyddiau nesaf, a bydd y Cadeirydd yn tynnu ei sylw at y mater hwn.

4. Cyfyng-gyngor Moesegol i'w Drafod

4.1 Crynodeb o drafodaethau Cyn-Haciwr

Cyflwynodd y Ditectif Uwch-arolygydd Peters y cyfyng-gyngor. Mae'r cyfyng-gyngor yn codi materion penodol ynghylch y gydberthynas briodol rhwng yr heddlu a chyn-hacwyr, ond hefyd, materion mwy cyffredinol mewn perthynas â phroses yr heddlu/Heddlu De Cymru (HDC) o gyflogi neu ymgysylltu â'r rhai sydd â chofnod troseddol.

Mae pa mor aml y caiff seiberdroseddau eu cyflawni wedi cynyddu'n fawr ledled Cymru, gyda sawl ymosodiad seiber yn mynd rhagddo bob dydd. Amcangyfrifir bod £3.1 biliwn wedi'i golli yn sgil twyll a seiberdroseddu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yng Nghymru. £4,200 yw cost pob achos o seiberdroseddu ar gyfartaledd. Amcangyfrifir bod 39% o fusnesau yng Nghymru wedi nodi eu bod wedi dioddef achos o seiberdroseddu neu doriad. Ni roddir gwybod am achosion o seiberdroseddu ddigon gan fod dioddefwyr yn aml yn tybio nad oes gan yr heddlu ddiddordeb yn y maes hwn o drosedd.

Mae'r Ganolfan Seibergadernid yng Nghymru (CRC) yn endid cyfreithiol ar wahân, sef cwmni nid-er-elw sy'n ffurfio rhan o rwydwaith o 10 o ganolfannau ledled Cymru a Lloegr, yn seiliedig ar gysyniad a ddatblygwyd gyntaf yn yr Alban. Ditectif Uwch-arolygydd Peters yw un o gyfarwyddwyr y Ganolfan. Mae strwythur y Ganolfan yn cynnwys bwrdd rheoli gyda chynrychiolwyr o'r adran uwch-blismona, gan gynnwys pennaeth y gwasanaeth cyllid ac adnoddau o Ogledd Cymru, Prif Gwnstabl Cynorthwyol o Dde Cymru, Prif Gwnstabl Gwent a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent. Mae'r bwrdd hwn hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sector preifat fel rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys cynrychiolwyr o gwmnïau technoleg, cwmnïau cyfrifyddiaeth ac asiantaethau partner eraill. At hynny, ceir grŵp cynghori sy'n cynnwys Ffederasiwn Busnesau Bach, Siambrau Cymru, Go North Wales, Busnes Cymru, Capital Law a Metrobank. Ymgysylltir â'r grŵp cynghori bob chwarter. Nod cyffredinol y grwpiau hyn yw cynyddu seibergadernid ledled Cymru, gan ganolbwyntio ar BBaChau, microfusnesau a'r sectorau bwyd. Mabwysiadwyd y ffocws hwn gan fod busnesau o'r fath yn agored iawn i ymosodiadau seiber. Maent yn tueddu i fod yn llai ymwybodol o ba mor aml y mae ymosodiadau seiber yn mynd rhagddynt a pha ragofalon y gallant eu cymryd i leihau'r risg o ddioddef ymosodiad. At hynny, maent yn tueddu i fod â diffyg seilwaith seiberddiogelwch priodol a chymorth TG i roi cyngor ar faterion o'r fath.

Er mwyn galluogi'r CRC i ddarparu gwasanaethau fforddiadwy, megis hyfforddiant ymwybyddiaeth staff, asesiadau agored i niwed, adolygiadau ar bolisïau a gwybodaeth cwrs agored, mae'r ganolfan wedi recriwtio myfyrwyr o brifysgolion Cymru. Caiff y myfyrwyr hyn eu rheoli gan y Grŵp Seibergadernid Cenedlaethol er mwyn sicrhau y caiff systemau goruchwylio priodol eu cynnal. Cyn i'r myfyrwyr gael eu lleoli i weithio ar rwydweithiau cwmnïau, mae'n rhaid iddynt ymgymryd â rhaglen ddatblygu sy'n sicrhau eu bod yn addas i wneud hynny. Mae cyfraniad myfyrwyr yn galluogi'r CRC (fel sefydliad nid-er-elw) i ddarparu cyfraddau is o gymharu â gwasanaethau cymaradwy a gynigir gan y sector preifat. Mae'r CRC yn canolbwyntio ar fusnesau na fyddent yn cymryd camau i wella eu seiberddiogelwch o bosibl neu'n gwybod lle i geisio cyngor o'r fath.

4. Cyfyng-gyngor Moesegol i'w Drafod

Manylodd y Ditectif Uwch-arolygydd Peters ar Strategaeth Seiber Genedlaethol 2022 Swyddfa'r Cabinet, sy'n cynnwys nifer o amcanion. Un ffocws allweddol yw 'defnyddio trosolwg o fygythiadau i adeiladu cymunedau a all amddiffyn eu hunain'. Mae angen i fusnesau ddeall y risg o ymosodiadau seiber, ac awgrymodd y Ditectif Uwch-arolygydd Peters mai'r unigolion gorau i esbonio'r gwendidau ac i gyfleu pwysigrwydd mynd i'r afael â nhw ar fyrder yw cyn-hacwyr sydd wedi targedu busnesau eu hunain. Nid yn unig y mae gan hacwyr o'r fath wybodaeth arbenigol am sut i gam-fanteisio ar wendidau o'r fath, ond mae ganddynt hefyd hygrededd, gyda'r gynulleidfa'n cynyddu yn sgil eu gweithgarwch hacio.

Ystyriodd y Pwyllgor y cwestiynau a ofynnwyd gan y Ditectif Uwch-arolygydd Peters a gofynnodd y Pwyllgor nifer o gwestiynau a drafodwyd yn fanwl yn ystod y cyfarfod. Roedd y cwestiynau hynny'n cynnwys beth yw haciwr moesegol a sut y gall yr heddlu sicrhau ei fod yn gallu ymddiried yn yr unigolyn hwnnw, a fyddai'r unigolyn yn gallu defnyddio rhwydwaith yr heddlu a beth fyddai'r effeithiau ar hyder y cyhoedd.

Mae haciwr moesegol yn profi rhwydweithiau ac, yn nodweddiadol, yn meddu ar gymwysterau megis CREST. Bydd yr unigolyn wedi cael caniatâd y cwmni targed i gynnal ei waith, neu mae'n bosibl y bydd yn ymgymryd â gwaith bownti, lle bydd yr haciwr, er enghraifft, yn dod o hyd i wendidau mewn cwmni, ac yn rhoi gwybod i'r cwmni (ar dudalen adrodd ddynodedig y cwmni o bosibl) er mwyn cael gwobr.

Mae tîm y Rhwydwaith Atal Seiber yn annog defnyddio sgiliau cyn-hacwyr er mwyn gwneud gwaith da. Mae 'rhwydwaith atal' yn galluogi hacwyr i ddefnyddio eu sgiliau mewn ffordd gadarnhaol ac i'w dargyfeirio o droseddu. Os na all hacwyr elwa'n ariannol o'u sgiliau, mae'n bosibl y byddent yn mynd ati i hacio unwaith eto. Nid yw'r CRC yn bwriadu rhoi cyfleoedd i gyn-hacwyr ddefnyddio eu sgiliau hacio. Ond yn hytrach, bydd y ganolfan yn gwahodd hacwyr (yn wirfoddol) i drafod eu sgiliau er mwyn codi ymwybyddiaeth ymysg busnesau Cymru o'r risgiau sy'n gysylltiedig â hacwyr.

Mae angen ystyried y weithred o gyfleu'r neges i'r cyhoedd er mwyn gostwng yr ansicrwydd ynghylch p'un a yw'r cyn-hacwyr yn cael eu talu a ph'un a ydynt yn ffynhonnell gredadwy ai peidio.

Dylid ceisio rhagor o dystiolaeth er mwyn pennu p'un a yw cyn-hacwyr wedi rhoi'r gorau i'r weithred ai peidio. Os byddai'r CRC yn ymgysylltu â chyn-haciwr, byddai angen nodi'n glir nad yw hyn yn gyfystyr â chaniatáu cynnal y gwasanaethau proffesiynol hyn y mae'r haciwr yn eu darparu/os bydd yr haciwr yn eu darparu. Dylai'r manteision o ddefnyddio cyn-haciwr fod yn uwch na'r risgiau. Gwnaeth y Pwyllgor gydnabod y gallai cyfweld â chyn-haciwr fod yn ddefnyddiol iawn er mwyn annog seibergadernid. Lluniwyd cyfatebiaeth a chyfweliad dychmygol, gyda bwrgler yn esbonio sut y mae'n torri i mewn i dai a pha mor hawdd ydyw i wneud hynny os nad yw deiliaid tai yn cymryd y rhagofalon cywir. Byddai cyfweliad o'r fath yn fwy effeithiol er mwyn dal sylw'r cyhoedd yn fwy na chael cyngor ar ddiogelwch gan yr heddlu.

<u>Crynodeb y Cadeirydd:</u>

Mae'r cyfyng-gyngor hwn yn mynd i'r afael a ph'un a ddylai CRC, cwmni nid-er-elw sydd â chysylltiadau agos â Heddlu De Cymru, gysylltu â chyn-haciwr sydd wedi'i euogfarnu am hacio a/neu droseddau cysylltiedig i gymryd rhan, yn wirfoddol, mewn ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o beryglon seiberdroseddu ai peidio a sut y gall busnesau bach a chymedrol o ran maint amddiffyn eu hunain yn erbyn troseddau o'r fath.

Mae'r ffactorau canlynol yn mynd i'r afael â'r manteision o gefnogi'r CRC i roi'r dull arfaethedig ar waith:

1. Byddai cyn-haciwr yn ymgysylltu â'r dull ar gyfer codi ymwybyddiaeth y cyhoedd am weithgareddau seiberdroseddu yn unig (nid er mwyn canfod na phlismona achosion o seiberdroseddu);
2. Ni fyddai cyn-haciwr yn gallu defnyddio rhwydweithiau na systemau cyfrifiadurol CRC na'r heddlu, ac ni fydd ganddo ddefnydd o gyfeiriad e-bost yr heddlu na CRC;
3. Ni fyddai trafodaethau'n cael eu cynnal â'r cyn-haciwr mewn perthynas ag ymchwiliadau sy'n mynd rhagddynt nac am dactegau'r heddlu i fynd i'r afael ag achosion o seiberdroseddu;
4. Byddai'r cyn-haciwr yn cymryd rhan yn y dull hwn yn wirfoddol (ni fyddai'n derbyn unrhyw iawndal ar wahân i dreuliau rhesymol);
5. Ceir tystiolaeth nad yw'r haciwr yn gwneud hynny bellach: mae'n edifarhau ei weithredoedd ac yn gweithio, ac mae proses fonitro'r heddlu a'r gwasanaeth prawf yn awgrymu nad yw'n ymwneud ag unrhyw fath o droseddu mwyach; a
6. Byddai ei gyfraniad yn rhoi cyfle i'r heddlu gefnogi'r broses o adsefydlu troseddwyr gan sicrhau cyn lleied o gostau â phosibl ac o fudd i'r cyhoedd hefyd.

4. Cyfyng-gyngor Moesegol i'w Drafod

Gwnaeth y Pwyllgor hefyd gydnabod yr angen i CRC ddod o hyd i ffyrdd arloesol o ddal sylw'r cyhoedd am bwysigrwydd seibergadernid.

Gweler y prif bryderon a godwyd yn ystod y trafodaethau isod:

1. Y posibilrwydd o ddifrodi enw da CRC a gwasanaeth yr heddlu os byddai'n dod i'r amlwg bod yr unigolyn yn parhau i ymwneud â seiberdroseddu neu ei fod wedi dychwelyd i'r byd seiberdroseddu.
2. Mae'n bosibl y byddai cynnal gweithgareddau proffil uchel wedi'u cynllunio â chyn-hacwyr yn glamoreiddio seiberdroseddwyr; a
3. Y posibilrwydd y gall cyn-hacwyr gam-fanteisio ar y sefyllfa (a cham-gyfleu o bosibl) er mwyn elwa'n fasnachol o'u cysylltiad â'r heddlu/CRC.

Yn gysylltiedig â'r pryder cyntaf roedd y cwestiwn ynghylch sut y mae'n bosibl cadarnhau nad yw haciwr yn ymwneud â'r weithred o hacio mwyach? At hynny, sut y bydd y dioddefwyr yn ymateb i gyfraniad yr unigolyn hwn o bosibl? A all hyn ddangos amarch tuag atynt neu achosi trawma iddynt? Gall fod canfyddiad bod yr unigolyn yn ffynnu ar ei ddrwgweithiau. Nodwyd hefyd na fyddai gan HDC na CRC lawer o reolaeth o ran sut y byddai'r unigolyn yn disgrifio ei gyfraniad i drydydd parti.

Er y gall fod gwasanaeth yr heddlu wedi gweithio gyda chyn-droseddwyr mewn meysydd pwnc eraill, mae'n anarferol i drydydd parti, megis elusen, beidio â negodi proses gydweithio o'r fath.

Er gwaethaf y pryderon hyn, cytunodd y Pwyllgor nad oedd rhwystrau moesegol sylweddol i'r dull arfaethedig o weithio gyda chyn-haciwr, ond y byddai'n cynghori y dylai'r broses fod yn ddibynnol ar yr amodau canlynol:

1. Dylai gweithgarwch y cyn-hacwyr gael ei gyfyngu i godi ymwybyddiaeth (ac ni ddylai'r gweithgarwch hwn fod yn llwyfan ar gyfer gwaith yr heddlu ar wrthhacio yn y dyfodol, er enghraifft);
2. Er mwyn sicrhau na fydd y cyhoedd yn camddeall cydberthynas yr haciwr â'r heddlu, dylai union natur (a phellter) cydberthynas yr unigolyn â'r CRC/yr heddlu gael ei esbonio ar ddechrau unrhyw weithgarwch y gall y cyn-haciwr gymryd rhan ynddo. Yn benodol, dylid nodi'n glir ar ddechrau pob digwyddiad o'r fath bod cyfraniad y cyn-haciwr yn gwbl wirfoddol a'i fod wedi'i wahodd i'r CRC - nid fel aelod o HDC na'r CRC - ac nad yw ei gyfraniad yn gyfystyr â chaniatáu cyflawni eu gwasanaethau proffesiynol; a
3. Dylai cyfraniad y cyn-haciwr fod yn amodol ar y broses o arwyddo contract lle bydd yn cytuno i beidio â hysbysebu heb ganiatâd i wneud hynny gan y CRC. Dylai contract o'r fath gael ei lunio gan Gynghorydd Cyfreithiol, a dylai gynnwys cymal cyhoeddusrwydd ar gyfer y dyfodol sy'n nodi ei bod yn ofynnol i'r unigolyn gael caniatâd y CRC cyn rhyddhau unrhyw ddatganiadau i'r cyhoedd neu gyhoeddiadau sy'n cyfeirio at ei gyfraniad at weithgareddau'r CRC.

5. Grŵp Arwain Moeseg Heddlu'r DU / Cymru, Gorllewin Lloegr a Llundain (Rhwydwaith Moeseg Heddlu Rhanbarthol)

Cynhaliodd Pwyllgor Rhanbarthol Cymru, Gorllewin Lloegr a Llundain gyfarfod ar 4 Ionawr 2023. Croesawodd y Pwyllgor Gadeirydd newydd – Jo Arundale o Ddyfnaint a Chernyw. Mae'n cymryd yr awenau gan Sam De Reya o Dorset, sydd wedi derbyn rôl y Cadeirydd ar gyfer y Pwyllgor Moeseg Cenedlaethol.

Cafodd y mwyafrif o amser y cyfarfod ei ymroi'n bennaf i gyflwyno diweddariadau gan yr aelodau perthnasol o'r pwyllgorau lleol. Roedd rhai o'r pynciau mwyaf diddorol a drafodwyd ar lefel leol yn canolbwyntio ar weithgareddau'r swyddogion nad ydynt ar ddyletswydd, gan gynnwys y canlynol:

- Moeseg swyddog nad yw ar ddyletswydd wrth gyfrannu at greu cynnwys pornograffig ar wefan OnlyFans;
- Moeseg swyddogion nad ydynt ar ddyletswydd wrth ddefnyddio gwasanaethau partneru a phuteiniaeth; a
- Cyfraniad swyddogion nad ydynt ar ddyletswydd at brotestiadau.

Roedd y cyfyng-gyngor a drafodwyd yn mynd i'r afael â moeseg heddluoedd o ran cael gafael ar dechnoleg a gaiff ei chreu gan gwmni o Tsieina. Er mai'r dechnoleg hon oedd yr un fwyaf cost-effeithiol yn ôl pob tebyg, codwyd y pryderon moesegol o ran hawliau dynol a diogelwch o ran materion data.

6. Unrhyw Fater Arall

Dim

7. Dyddiadau Cyfarfodydd yn 2023
Dydd Iau, 8 Mehefin 2022, 12:00-15.00PM, Ystafell Gyfarfod Dyffryn, Pencadlys yr Heddlu, Heol y Bont-faen, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU